

POLISI IAITH GYMRAEG RHWYDWAITH BUSNES GWYNEDD



GWYNEDD BUSINESS NETWORK WELSH LANGUAGE POLICY





Rhwydwaith Busnes Gwynedd

Grŵp o berchnogion a gweithredwyr busnes yw'r Rhwydwaith a ffurfiwyd yng Ngwynedd i ddarparu fforwm ar gyfer pob busnes yn y sir er mwyn:

- Rhwydweithio a rhyng-fasnachu;
- Cyfathrebu â sectorau eraill (cyhoeddus ac academaidd);
- Adnabod a datrys problemau sy'n wynebu busnesau yn yr ardal.

Gellir ymaelodi â'r Rhwydwaith am ddim ac mae ar agor i bob busnes yng Ngwynedd. Er bod modd cael mynediad i'r rhwydwaith heb gofrestru'n ffurfiol, fe'ch anogir i wneud hynny. Trwy ddod yn aelod, cewch fynediad i bob rhan o'r wefan i gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau a chyfarfodydd sy'n berthnasol i'ch busnes. Mae ganddom oddeutu 400 o aelodau ar hyn o bryd.

Mae ein gwefan (www.gwyneddbusnes.net/wisscms-cym-175.aspx) yn cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd y byddwn yn eu cynnal yn y dyfodol, mwy o fanylion amdanom ni a phob math o wybodaeth arall i fusnesau. Cofrestrwch eich aelodaeth er mwyn cael mynediad llawn i bob rhan.

Os bydd gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau ar y safle gwe neu'r rhwydwaith yn gyffredinol, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Paratowyd y polisi hwn gyda chymorth Grŵp Hyrwyddo Iaith Gwynedd.



Gwynedd Business Network

We are an association of business owners and operators in Gwynedd formed to provide a forum for all businesses in the county to:

- Network and inter-trade;
- Communicate with other sectors (public and academic);
- Identify progress and resolve issues facing businesses in the area.

Membership is open to all businesses in Gwynedd, at no cost. Though you can access the network without formally registering, we encourage you to do so. You can then access all areas of the site for updates on events, meetings and information relating to your business. Currently we have approximately 400 members.

Please browse the site (<http://www.gwyneddbusnes.net/wisscms-en-209.aspx>) see what meetings we've got coming up, find out more about us and access the information. Register for membership, and you'll have full access to all areas.

If you have any suggestions or comments on our website or the network, please do contact us with your feedback.

This policy was prepared with the assistance of Gwynedd Welsh Language Promotion Group.

Cyflwyniad

- Rydym yn ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb, cyn belled ag y medrwn wneud yn rhesymol. Ein huchelgais yw i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd ym mhob sefyllfa, heb eithriad.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn datgan ein hymrwymadau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Introduction

- We are committed to treating Welsh and English on the basis of equality, so far as we are reasonably able to do so. Our ambition is to treat Welsh and English equally in every situation, without exception.
- We will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh.

Cytunwyd ar fabwysiadu'r polisi: Do

Dyddiad Gweithredu'r Polisi: Mehefin 2009

Swyddog Cyfrifol: Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG

Arwyddwyd:

Swydd: Cadeirydd

- Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion am y polisi hwn at:

Cyfeiriad: Cadeirydd Rhwydwaith Busnes Gwynedd, Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG

Ffôn: 0870 428 1525

E-bost:admin@gwyneddbusnes.net

- Dyddiedig: Mai 2009

Ymwadiad

Polisi gwirfoddol yn diffinio gwasanaethau dwyieithog y cwmni yw'r Polisi Iaith Gymraeg hwn. Defnyddiwyd templed Bwrdd yr Iaith Gymraeg i lunio'r polisi iaith ond *nid yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyfrifol am arolygu safon ein darpariaeth yn Gymraeg a dylid cyfeirio pob ymholiad am weithrediad y polisi at y Swyddog Cyfrifol a nodir uchod.*

Policy Adopted: Yes

Policy Implementation date: June 2009

Responsible Officer: Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG

Signed:

Position held: Chair

- Please direct any comments or complaints about this policy to:

Address: Chair Gwynedd Business Network, Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG

Tel:0870 428 1525

Email:admin@gwyneddbusnes.net

- Dated: May 2009

Disclaimer

This Welsh Language Policy is a voluntary policy outlining the company's bilingual services. The Welsh Language Board's template was used to compile this Welsh Language Policy however; *the Welsh Language Board is not responsible for monitoring the standard of our Welsh medium provision. Any enquiries regarding the implementation of this policy should be directed for the attention of the Responsible Officer noted above.*



Swyddogaethau'r cwmni ac ymrwymiad ieithyddol

Mae Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn cefnogi'n llawn y strategaeth i hyrwyddo iaith a'r diwylliant Cymraeg fel elfen unigryw o dwristiaeth gynaliadwy ac fel elfen integrol o'r profiad o ymweld â Chymru. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i gefnogi a mabwysiadu'r strategaeth hon ymhlith ein aelodau yn ardal Gwynedd – wedi'r cyfan dyma'r sir sydd a'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru ac sydd â nifer fawr o atyniadau ieithyddol a diwylliannol unigryw o bwys cenedlaethol.



Company's functions & linguistic commitment

Gwynedd Business Network fully supports the strategy to promote the Welsh language and culture as a unique element of sustainable tourism and an integral part of the experience of visiting Wales. We will take every possible step to support and adopt this strategy amongst our members in Gwynedd – after all this is the county with the highest percentage of Welsh speakers across Wales and which has many unique linguistic and cultural attractions of national importance.

Delwedd Gyhoeddus

1. Arwyddion parhaol

- Mae pob arwydd 'pop up' parhaol yn gwbl ddwyieithog.

2. Arwyddion dros dro

- Byddwn yn sicrhau bod pob arwydd dros dro newydd yn gwbl ddwyieithog.

3. Brand Corfforaethol

- Mae ein brand corfforaethol yn gwbl ddwyieithog.

4. Papur Pennawd

- Mae ein papur pennawd yn gwbl ddwyieithog.

5. Cardiau Busnes

- Mae pob cerdyn busnes yn gwbl ddwyieithog.

Public Image

1. Permanent Signs

- All our permanent 'pop up' signs are fully bilingual.

2. Temporary Signs

- We will ensure that all new temporary signs are fully bilingual.

3. Corporate Brand

- Our corporate brand is fully bilingual.

4. Stationery

- Our stationery is fully bilingual.

5. Business Cards

- All our business cards are fully bilingual.

Gwefan a Pheiriannau Hunan Wasanaeth

6. Safle Gwe

- Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog.
- Bydd angen i unrhyw eitem newyddion neu ddigwyddiad a gyflwynir gan aelodau'r cyhoedd neu aelodau cofrestredig i'w osod ar y safle gwe fod ar ffurf dwyieithog er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymiad polisi uchod
- Danfonir e-bost rheolaidd i aelodau yn ddwyieithog fel arfer, ond ar adegau danfonir y fersiwn Saesneg yn gyntaf gyda'r Gymraeg yn dilyn yn syth. Gwneir hyn oherwydd nad yw'n bosibl ar bob achlysur i gynnwys y ddwy fersiwn gyda'u gilydd mewn un e-bost.

7. Peiriannau Hunanwasanaeth

- Nid oes gennym beiriannau hunanwasanaeth .

Hysbysebu a Marchnata

8. Hysbysebu trwy ddarlledu

- Nid ydym yn hysbysebu trwy ddarlledu.

9. Hysbysebu mewn Cyhoeddiadau Cymraeg

- Nid ydym yn hysbysebu mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- Byddwn yn sicrhau bod pob ymgyrch hysbysebu newydd yn y wasg Gymraeg yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig.

Website and Self-service Machines

6. Website

- Our website is fully bilingual.
- Any news or event items submitted for the website by members of the public or registered members will need to be presented in a bi-lingual format to ensure compliance with the above policy commitment.
- Regular emails are sent to members usually in a bilingual format, but at times an English version may be sent initially and a Welsh version sent immediately afterwards. This is done because it's not always possible to include both versions together in one email.

7. Self-service Machines

- We do not have any self-service machines.

Advertising and Marketing

8. Broadcast Advertising

- We do not use broadcast advertising.

9. Advertising in Welsh Language Publications

- We do not advertise in Welsh language publications.
- We will ensure that all new advertising campaigns in the Welsh medium press are fully bilingual or in Welsh only.

10. Hysbysebu yn y Wasg Gymreig

- Mae rhywfaint o'n hysbysebu yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Cymreig.

11. Hysbysebu Recriwtio

- Nid ydym yn defnyddio hysbysebion recriwtio gan fod y Rhwydwaith yn gwbl ddibynol ar aelodau i wirfoddoli ar ei ran.

12. Hysbysebu Arddangos

- Nid oes gennym hysbysebion arddangos.

13. Cyhoeddiadau Print

- Nid oes gennym gyhoeddiadau print.
- Pe byddai hynny'n newid yn y dyfodol byddwn yn sicrhau fod ein cyhoeddiadau print newydd yn gwbl ddwyieithog o hyn ymlaen.

14. Arddangosfeydd

- Nid oes gennym unrhyw ddeunydd arddangos.
- Byddwn yn sicrhau bod ein deunydd arddangos newydd yn gwbl ddwyieithog yng Nghymru.

10. Advertising in Welsh Publications

- Some of our advertising is bilingual in Welsh publications.

11. Recruitment Advertising

- We do not use recruitment advertising because the Network is wholly dependent on members volunteering on its behalf.

12. Display Advertising

- We do not have any display advertisements.

13. Printed Publications

- We do not have any printed publications.
- If that were to change in the future we will ensure that all our new printed publications are fully bilingual.

14. Exhibitions

- We do not have any exhibition materials.
- We will ensure that all our new or revised exhibition materials are fully bilingual in Wales.

15. Cyhoeddiadau Sain

- Nid ydym yn gwneud unrhyw gyhoeddiadau sain.

16. Pecynnu

- Nid oes gennym unrhyw becynnu.
- Byddwn yn sicrhau bod pob pecynnu newydd yn gwbl ddwyieithog.

17. Prasio, Derbynebau a Thocynnau

- Nid oes gennym unrhyw prisiau, derbynebau na thocynnau.
- Byddwn yn sicrhau bod unrhyw prisiau, derbynebau a thocynnau newydd yn gwbl ddwyieithog.

Cyfathrebu

18. Dewis Iaith Cwsmeriaid

- Nid ydym yn cofnodi dewis iaith ein cysylltiadau busnes.
- Ni fyddwn yn cofnodi dewis iaith ein cysylltiadau busnes wrth ddatblygu neu ddiweddarau ein systemau rheoli gwybodaeth cwsmeriaid oherwydd bod ein safle gwe yn ddwyieithog ac mae hanner aelodau bwrdd y Rhwydwaith yn ddwyieithog ac felly ar gael i drafod yn newis iaith yr unigolyn.

15. Audio Announcements

- We do not make any audio announcements.

16. Packaging

- We do not have any packaging.
- We will ensure that all our new packaging is fully bilingual.

17. Pricing, Receipts and Ticketing

- We do not have any pricing, receipts or ticketing.
- We will ensure that all our new pricing, receipts and ticketing are fully bilingual.

Communication

18. Customer Language Choice

- We do not record the language choice of any business contacts.
- We do not record the language choice of our business contacts when developing or updating our customer relationship management systems because our website is fully bilingual and half our Network board members are bilingual and therefore able to converse in accordance with the individual's language preference.

19. Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

- Cyfarfodydd y Bwrdd a'r CCB ('AGM')
- Rydym yn sicrhau bod o leiaf un aelod o'r Bwrdd sy'n medru siarad Cymraeg ar gael ym mhob cyfarfod, er mwyn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg ar unrhyw adeg.

20. Cyfathrebu dros y Ffôn

- Mae pob aelod o staff swyddfa Intec Cyngor Gwynedd yn gallu adnabod a derbyn galwad yn Gymraeg gyda chwarteisi.
- Rydym yn croesawu defnydd o'r Gymraeg gan staff Cyngor Gwynedd sy'n gallu gwneud hynny wrth dderbyn galwadau.
- Mae pob aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gallu trin ymholiad yn gyflawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Mae pob aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gallu trosglwyddo ymholiad at rywun sy'n gallu siarad Cymraeg.

21. Gohebiaeth (Papur ac Electronig)

- Mae pob gohebiaeth yn gwbl ddwyieithog neu yn newis iaith y derbynnydd.
- Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
- Rydym wastad yn ateb yn Gymraeg i lythyrau a dderbyniwyd yn Gymraeg neu pan fydd rhywun yn gofyn i ni wneud hynny.

19. Face to Face Communication

- Board meetings and AGM
- We ensure that there is at least one member of the Board is able to speak Welsh in any meeting, so that we offer a Welsh language service at all times.

20. Telephone Communication

- Every member of Gwynedd Council Intec office staff is able to recognise and handle a Welsh language call with courtesy.
- We welcome the use of Welsh when receiving calls by Gwynedd Council staff able to do so.
- Every member of staff is able to handle an enquiry in Welsh or English throughout.
- Every member of staff is able to transfer an enquiry to a colleague who is able to speak Welsh when required.

21. Correspondence (Paper and Electronic)

- All correspondence is fully bilingual or in the recipient's preferred language.
- We accept correspondence in Welsh or English.
- We always reply in Welsh when we are replying to correspondence received in Welsh or when we have received a request to do so.

22. Cyfarfodydd Cyhoeddus

- Mae rhywfaint o'n cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.
- O ddyddiad cymeradwyo'r polisi hwn byddwn yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus gan archebu offer cyfieithu ar y pryd i sicrhau cydraddoldeb ieithyddol.
- Pan wahoddir siaradwyr gwadd i annerch y CCB ('AGM'), os ydynt yn ddwyieithog fe'u hanogir i annerch yn Gymraeg, ond o bryd i'w gilydd bydd rhai siaradwyr di-Gymraeg yn annerch yn y Saesneg - gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar bob achlysur.

23. Dogfennau Cyfrif

- Mae ein dogfennau cyfrif yn Saesneg yn unig.
- Ar gymeradwyo'r polisi hwn bydd ein dogfennau cyfrif yn gwbl ddwyieithog.

24. Ffurflenni

- Mae ein ffurflenni adborth ac arolwg yn ddwyieithog.

Staff a'r Gweithle

25. Asesu Anghenion Sgiliau Iaith wrth Recriwtio

- Nid ydym yn penodi staff gan fod aelodau yn cyfrannu'n wirfoddol i unrhyw waith y Rhwydwaith.

22. Public Meetings

- Some of our public meetings are bilingual.
- From the approval date of this policy we will use Welsh and English in our public meetings and purchase simultaneous translation facilities to ensure linguistic equality.
- When guest speakers are invited to speak at our AGM if they are bilingual they'll be encouraged to speak in Welsh, but from time to time some non-Welsh speaking speakers will speak in English – with simultaneous translation facilities provided on all occasions.

23. Account documents

- Our account documents are in English only.
- We will use more Welsh in our account documents wherever it is reasonable to do so.

24. Forms

- Our feedback and survey forms are bilingual.

Staff and the Workplace

25. Assessing Language Skills Requirements when Recruiting

- We do not appoint any staff because members contribute voluntarily for any Network work.

26. Cofnodi Sgiliau Iaith Staff

- Oherwydd 25 uchod mae'r adran hon yn amherthnasol.

27. Datblygu Sgiliau Iaith ein Staff

- Oherwydd 25 uchod mae'r adran hon yn amherthnasol.

28. Cyfathrebu Mewnol

- Rydym wastad yn croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg o fewn y gweithle.
- Mae ein cyfarfodydd mewnol yn uniaith Saesneg gan fod hanner yr aelodau yn ddi-Gymraeg.
- Byddwn yn cefnogi a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle.

29. Cyhoeddiadau Mewnol

- Nid oes gennym gyhoeddiadau mewnol.
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl gyhoeddiadau mewnol newydd yn gwbl ddwyieithog yn y dyfodol.

30. Meddalwedd yn Gymraeg

- Trwy gymorth Cyngor Gwynedd bydd deunyddiau ysgrifenedig yn cael eu gwirio gan feddalwedd Cymraeg – megis Cysill a Cysgair - er mwyn sicrhau ansawdd.

31. Mewnrwyd

- Nid oes gennym fewnrwyd.

26. Recording Staff Language Skills

- Because of 25 above this section is irrelevant.

27. Developing our Staff's Language Skills

- Because of 25 above this section is irrelevant.

28. Internal Communication

- We always welcome Welsh language communication in the workplace.
- Our internal meetings are in held in English only because half our members are non Welsh speaking.
- We will support and facilitate the use of Welsh and English in the workplace.

29. Internal Publications

- We do not have any internal publications.
- We will ensure that all our new internal publications are fully bilingual.

30. Welsh language software

- Via the support of Gwynedd Council written materials will be checked by Welsh software – Cysill and Cysgair – for quality assurance.

31. Intranet

- We do not have an intranet.

Gweithredu ac Arwain

32. Arweiniad

- Bydd y bwrdd yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn y Rhwydwaith.

33. Ymwybyddiaeth

- Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen – ar ein gwefan.
- Bydd hyn yn galluogi pob aelod i weld a darllen copi o'r polisi ac arweiniad ar ei oblygiadau.

34. Adolygu

- Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol.
- Bydd y Polisi Iaith Gymraeg hwn yn cael ei achredu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a byddwn yn anfon adroddiadau monitro blynyddol ar ei weithrediad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

35. Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan

- O ddyddiad cymeradwyo'r polisi byddwn yn sicrhau fod pob gwasanaeth sydd wedi ei ddarparu ar ein rhan gan gcontractwr neu drydydd parti (megis Menter a Busnes a Cyngor Gwynedd) yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Cyflawnir hyn trwy osod amod safonol – bydd angen paratoi unrhyw ddeunydd cyhoeddus yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ran Rhwydwaith Busnes Gwynedd - mewn cytundebau cyflenwi gwasanaeth.

Implementation and Leadership

32. Leadership

- We will ensure that this policy is supported at the highest level in our organisation.

33. Awareness

- This policy will be conveniently available for the public to read – on our website.
- This will enable all members to see and read a copy of this policy and direction on its requirements.

34. Review

- We will assess and revise this policy every year.
- This Welsh Language Policy will be accredited by the Welsh Language Board and we will send annual monitoring reports on its implementation to the Welsh Language Board.

35. Services delivered on our behalf

- From the approval date of this policy we will ensure that every service delivered on our behalf by a contractor or third party (such as Menter a Busnes and Gwynedd Council) complies with this policy. This will be implemented by including a standard clause – any public material should be prepared in Welsh and English on behalf of Gwynedd Business Network – in service provider contracts.